# Cost y Gwrthdaro

**Nodweddwyd y Rhyfel Byd Cyntaf gan y gwrthdaro rhwng byddinoedd anferth a oedd wedi'u harfogi gan arfau diwydiannol angheuol newydd a'r sefyllfaoedd ddiddatrys yn y ffosydd. Roedd math newydd o ryfela wedi cael ei esgor.**

Wrth i'r haf droi'n aeaf yn 1914, death hi'n gliriach na fyddai'r rhyfel drosodd erbyn y Nadolig. Roedd brwydr hir yn wynebu Prydain. Bu'n rhaid i'r llywodraeth ddarganfod ffyrdd newydd o gynnal costau enfawr y rhyfel. Costau oedd yn cynnwys nid yn unig ffrwydron a bwledi ond bisgedi a baco. Gwnaeth hynny trwy godi trethi, argraffu a benthyca arian.

Penderfynodd y wlad fenthyg arian oddi wrth y cyhoedd, trwy eu hysbrydoli nhw i fuddsoddi yn ymdrech y rhyfel. Anogwyd pobl i fynd i'r banciau a phrynu bondiau rhyfel, sef tystysgrifau lliwgar oedd yn addo elw cenedlaethol a theimlad o falchder yn gyfnewid am roi benthyg arian i'r llywodraeth. Cynhaliwyd ymgyrchoedd gan ddefnyddio posteri cenedlaetholgar i hybu'r syniad. Cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddo fawr ar draws y wlad. Gwelwyd arian yn cael ei godi drwy ddefnyddio tanciau fel banc i ledu'r neges yn y trefi a'r dinasoedd.

